

Hanes Llestri Merched Cymreig

Irene Williams

Tua 1985-6 y dechreuodd fy niweddar wr a minnau hel llestri ac arnynt luniau o ferched Cymreig yn eu gwisg draddodiadol.

fwthyn ac amrywiol bobl yn dwad ag anrhegion priodas iddynt; a Diwrnod Marchnad – pobl gyda basgedi o nwyddau ar y ffordd i'r farchnad (Llun 3).



Llun 1, Esgidiau

Cychwynnwyd gyda'r pâr o esgidiau a brynwyd mewn siop yng Nghaerdybi am £20; dyma fel yr ysgrifennodd Llew am yr achlysur: 'Doeddau nhw ddim yn ddel o gwbl. Does gen i ddim syniad pam y tarodd fy llygaid arnynt, mi fuasai'n well 'taswn i wedi gwario'r pres ar bâr o sgidiau iawn' (Llun 1).

Ond wedi prynu'r sgidiau tyfu wnaeth y casgliad i dros ddwy fil o ddarnau. Mae yma gannoedd o gwpanau a soseri, ond mae'r chwech yn y llun yn brin ac rwyf am eu gwerthu (Llun 2).

Mae hanes ffermio yn y gorffennol ar dair o'r rhain, sef ceffyl a throl, a merched yn gweithio yn y cynhaeaf gwair. Ar gwpanau a darnau eraill mae llun o: Talu'r pwyth yn ôl, sef llun o ddeuddyn y tu allan i

Dyma lun o rai o blatiau rhuban sydd yma. Y llun mwyaf cyffredin o'r rhain yw y 'Te Cymreig' hynny ydi, dwy, tair neu bedair o ferched yn yfed te o gwmpas bwrdd. Ni fedraf enwi'r lluniau i gyd oherwydd mae yma gynifer â 250 o wahanol rai (Llun 4-5).

Eto, dyma ddau lun ac ynddynt ddarnau amrywiol sydd yn fy meddiant. Cynhyrchwyd y darnau gan dros ddeugain o gwmnïau, rhwng 1860 a 1914; nid oes yr un darn hen wedi ei gynhyrchu yng Nghymru. Yn yr Almaen y cynhyrchwyd y rhan fwyaf ohonynt.

Gwnaed y plât a'r ddysgl yma o grochenwaith fel 'perl'. Mae amryw o ddarnau wedi eu llunio o'r crochenwaith yma.



Llun 3, Platiau Rhuban



Llun 4



Llun 2



Llun 5